COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mehefin 14eg, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, Andrew T. Weir, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Robert M. Jones, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig yr Arolygydd Gethin Jones a'r Heddwas Gavin Hughes, yn dilyn eu penodiadau diweddar i'r ardal hon, a PCSO Stephen Reagan. Cyflwynont eu hunain a diolchodd Cyng. Dewi W. Roberts am gael gwasanaeth Cymro Cymraeg lleol yma; fe'i ategwyd gan Cyng. John B. Hughes. Eglurwyd bod plismona cymunedol yn holl bwysig i'r ardal hon a bydd yn newid ychydig dros yr haf oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth Aber-soch – defnyddir 'Lefelau Staffio Dymunol' yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â phlismona lleol. Mynegwyd pryder am ddiffyg cefnogaeth os aiff y ddau heddwas o'r gymuned pan eir â rhywun i'r ddalfa, gan y gall hynny fod un ai yng Nghaernarfon, Aberystwyth, Llanelwy neu Wrecsam – bwriada DWR godi'r mater yn y Cyngor hefyd. Dychwela PCSO Elen Love i'w swydd cyn bo hir felly, bydd hithau'n gaffaeliad ychwanegol. Ychwanegwyd y bydd y camera cylch cyfyng newydd yn gymorth ychwanegol i'r Heddlu, unwaith y bydd wedi'i gysylltu'n iawn â'r Swyddfa ym Mhwllheli. Diolchwyd iddynt am roi o'u hamser i fynychu'r cyfarfod a phenderfynwyd y byddai'n fuddiol iddynt ddychwelyd ar ddiwedd yr haf i adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Medi.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod blynyddol a misol a gynhaliwyd ar Fai 10fed, 2017 yn gywir ar ôl cywiro'r rhestr bresenoldeb – tynnwyd enw John E. Griffiths ac ychwanegwyd Owi Lloyd-Jones ac Andrew T. Weir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0159/39/LL	Cynlluniau Diwygiedig – Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch **– Ni dderbyniwyd copi o'r cynlluniau diwygiedig, er gofyn ddwy waith, felly, ni ellid cyflwyno sylwadau. Gwrthwynebwyd y cais gwreiddiol oherwydd gorddatblygiad**
C17/0371/39/AM	Dymchwel adeilad ac adeiladu tŷ – Tir ger Berthwen**,** Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C17/0391/39/LL	Estyniad talcen unllawr – Bodnant, Bwlchtocyn – **Cefnogir**

C17/0393/39/LL	Cynlluniau Diwygiedig **–** Gwelliannau i do llechi presennol a chodi to llechi newydd yn lle un fflat presennol – **Neigwl, Aber-soch – Cefnogir**
C17/0412/39/LL	Creu safle ar gyfer carafannau teithiol – Llain Las, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – AJ, JGJ, DLl]**
C17/0442/39/AM	Dymchwel adeilad meddygfa wag bresennol ac adeiladu annedd gan greu mynedfa newydd a gwaith cysylltiol – Meddygfa Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd: 1. fod y disgrifiad yn anghywir – nid yw'n adeilad gwag oherwydd mae ar agor ddau fore'r wythnos; 2. mae'n wasanaeth na all yr ardal ei golli a allasai effeithio ar rai eraill yn y gymuned megis y fferyllfa – a oes polisi ar gyfer hyn?; 3. nis ymgynghorodd y meddygon â'r Cyngor/Aelod Lleol/gymuned; 4. nid oes trafnidiaeth gyhoeddus yn teithio o'r gymuned hon i Fotwnnog – rhaid mynd i Bwllheli/Lanbedrog gyntaf; 5. costia llogi tacsi neu wasanaeth O Ddrws i Ddrws £11.00 – pris afresymol o uchel i bensiynwyr neu gleifion sy'n ymweld â'r meddyg yn aml; 6. ni hysbyswyd y Cyngor Iechyd Cymuned na Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am y cais; 7. er mai cais am un tŷ a mynedfa newydd yw hwn, tybir y cyflwynir cais am un arall maes o law oherwydd y fynedfa**
C17/0443/39/YM	Estyniad ac addasiadau i gynnwys ffenestr gromen ar edrychiad gogleddol, dwy ffenestr gromen ar edrychiad deheuol, estyniad deulawr dwyrain, estyniad unllawr i'r gorllwein gyda to byw, estyniad i lefel is-lawr, teras bychan i'r gorllewin, sied dingi yn yr ardd a newidiadau mewnol – Pen y Cei, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod mewn safle amlwg a welir uwch ben yr harbwr o bob ffordd fynediad i mewn i'r pentref, ynghyd â bod gormod o estyniadau toeau fflat [Datgan Diddordeb – OLJ]**
C17/0444/39/LL	Gosod dwy garafan sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd newydd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – AJ, JGJ, DLl]**
C17/0445/39/LL	Newid i fynedfa – Tir ger 2 Cae'r Eglwys, Llanengan – **Gwrthwynebir**
C17/0448/39/LL	Adeiladu gwasanaethau newydd, amrywiol waith peirianyddol ynghyd â chynyddu lleiniau teithiol o 18 i 24 – Fron Hyfryd Caravan Park, Sarn Bach – **Cefnogir [Datgan Diddordeb – AJ, JGJ, DLl]**
C17/0473/39/LL	Adeiladu dau estyniad ac addasiadau mewnol – Llwyndu, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0494/39/LL	Estyniad ac addasiadau mewnol – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

[Aeth WG i'r Gadair i drafod ceisiadau'r meysydd carafannau yn absenoldeb yr Is-gadeirydd a Datgan Diddordeb y Cyn-gadeirydd.]

Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod ar ôl trafod y ceisiadau cynllunio.

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth gyfreithiwr y Cyngor parthed y drysau.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***

Cadarnhawyd talu'r anfoneb (£10,000) – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod am y cyfraniad at gynnal y toiledau; ni dderbyniwyd ateb i'r llythyr.
Derbyniwyd ateb mai dim ond toiledau'r bont sydd ar agor yn ystod y gaeaf ac fe'u harchwilir yn ddyddiol gan y glanhawyr a'u glanhau rhyw dair neu bedair gwaith yr wythnos neu fel bo'r angen. Ni lanheir y rhai tymhorol (Golff, Machroes a Mynytho) yn ystod y gaeaf nac yn ddyddiol ond, cynhelir rhaglen waith trylwyr pan maent ar gau, sef gwaith na ellir ei wneud pan maent ar agor.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***
Nid oedd dim pellach i'w adrodd.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***
Fe'i cynhaliwyd ar Fai 24ain – derbyniwyd yr adroddiad ac anfoneb (gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod); diolchir i EWR am gynorthwyo gosod y seddau siglenni newydd cyn yr archwiliad. Tynnwyd sylw at yr isod:

- ***Cae Chwarae Aber-soch***: offer sglefrfyrddio, sef yr un sylw blynyddol nad yw'n ddiogel ond, anghytuna'r gwneuthurwyr; angen paentio ar ôl gwaredu'r rhwd ar yr offer sglefrfyrddio, siglenni ac offer y plant lleiaf; angen llenwi neu ailosod y teiliau diogelwch du; angen byfferau a wasieri ar gyfer rhai o'r offer ymarfer corff
- ***Cae Chwarae Mynytho***: popeth yn iawn, ar wahân i gadw golwg ar y teiliau diogelwch du.

Cynhwysir prisiau am y darnau sydd eu hangen – £30.31 + TAW a chludiant a £360.00 + TAW am eu gosod; penderfynwyd archebu'r darnau'n unig.

iii) ***Amcanbrisiau Offer Newydd***
Derbyniwyd amcanbrisiau oddi wrth G.L. Jones Ltd. am siglenni 2.4m newydd (£6785.00 + TAW) a £14,535.00 + TAW am ddringwr rhwyd siâp pyramid 4m uchder, yn dilyn derbyn cwynion (llafar) nad oes offer ar gyfer plant rhwng naw a phedair ar ddeg oed. Penderfynwyd holi os oes rhai'n lleol i'w gweld cyn archebu.

c) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Gosodwyd y camera newydd – y model diweddaraf; ni dderbyniwyd gwybodaeth os cyfranna'r Heddlu ato ai peidio a derbyniwyd yr anfoneb (gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Derbyniwyd yr arwyddion – siomedig, meddwl mai rhai metel fuasent, gan na ellir eu gosod tu allan i'r toiledau ac maent yn rhy fawr i'w rhoi tu mewn i'r ffenestri. Tynnwyd llun PCSO Stephen Regan yn eu trosglwyddo i'r Cyng. Wyn Williams a'r Clerc i'w roi ar Weplyfr yr Heddlu i dynnu sylw at y cydweithrediad sydd rhwng y Cyngor a'r Heddlu.

ch) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach. Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o e-bost a anfonodd Cyng. Dewi W. Roberts at y Cyngor Iechyd Cymunedol parthed y cais; penderfynwyd ysgrifennu at y meddygon i fynegi siomedigaeth o'i dderbyn heb ymgynghori â'r Cyngor fel y gwnaethpwyd tair blynedd yn ôl a nodi'r pwyntiau wrth ei wrthwynebu yn 3. Ceisiadau Cynllunio uchod.

d) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
Ni dderbyniwyd adroddiad nac anfoneb er cysylltu eto – anfonir llythyr i holi beth yn union sy'n digwydd.

dd) **Gohebiaeth**: **11ch) Swyddog Trwyddedu – Cais Amrywio Trwydded Eiddo – Y Vaynol, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad parthed os bodola'r un oriau i dafarndai eraill Aber-soch, er mwyn tegwch.

e) **Gohebiaeth: 11e) Un Llais Cymru (ULlC) –** i) **Hyfforddiant Anwytho Cynghorwyr Newydd**
Mynychwyd y cwrs anwytho gan DLl, OLJ, ATW ac Edward O. Griffith er mai heno y caiff ei gyfethol – holwyd ULlC pe câi ei fynychu; dim gwrthwynebiad.

5. **COED YR ALLT, ABER-SOCH**

Derbyniwyd:

i) galwad ffôn oddi wrth yr Heddlu'n dweud yr holwyd y dyn a dorrodd y coed ac ni ddywedodd ddim ond 'dim sylw'! Trosglwyddwyd y drosedd i Wasanaeth Erlyn y Goron a derbyniwyd cadarnhâd y dwynir achos yn ei erbyn er mai ar sail tystiolaeth amgylchiadol y'i cynhelir
ii) adroddiad ar y difrod a phris am blannu mwy o goed ar y safle (£1021.76) oddi wrth Paolo Bavaresco, Arbenigwr Coed, ynghyd ag anfoneb am ei waith (£180.00) – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – ddaw â chyfanswm gwariant dianghenrhaid o bron i ddwy fil o bunnoedd
iii) ymateb yr Adran Gynllunio i'r e-bost a anfonwyd i'w hysbysu o'r difrod ac awgrymu y buasai Gorchymyn Diogelu Coed yn fuddiol. Fe'i hanfonwyd i'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth am ystyriaeth gan mai dim ond gweinyddu gorchmynion diogelu coed, a pharatoi gorchmynion newydd, wna'r Uned Orfodaeth. Trafodwyd y difrod ac ni argyhoeddwyd, ar hyn o bryd, bod angen gosod gorchymyn diogelu ar y coed. Gofynnir am ganlyniad yr erlyniad fel y gellir wedyn ystyried ymhellach os oes angen ail-edrych ar y posibilrwydd o roddi gorchymyn diogelu ar y goedlan ai peidio.

6. **ETHOLIADAU – CYNGHORAU CYMUNED A THREF – CYFETHOL AELOD I WARDIAU ABER-SOCH A LLANGIAN**

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth y Swyddog Etholiadau yn dilyn ysgrifennu dau lythyr yn mynegi anfodlonrwydd â'r problemau a gafwyd o gyflwyno ffurflenni enwebu yn Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli. Derbyniwyd ymatebion cefnogol oddi wrth Gynghorau Aberdaron, Tudweiliog a Llanystumdwy (copi o lythyr at y Swyddog Etholiadau a nodai, hefyd, y collwyd ffurflen un a olygai bod rhai cyfethol yno hefyd). Ni chafodd cynghorwyr Cyngor Botwnnog drafferth ac, o'r herwydd, ni all roi sylw. Ysgrifennir at Iwan Evans, Cyfreithiwr y Cyngor, i fynegi anfodlonrwydd.

Dau enw a dderbyniwyd yn dilyn hysbysu Rhybudd Cyfethol, h.y. un i'r naill Ward a'r llall, sef William Bennar Williams i Ward Aber-soch ac Edward Owen Griffith i Ward Llangian; penderfynwyd eu cyfethol yn unfrydol.

7. **CYFRIFON – ARCHWILIAD 2016 – 2017 (MEWNOL AC ALLANOL)**

Derbyniodd John D. Roberts y gwahoddiad i fod yn Archwiliwr Mewnol i'r Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol, 2017 – 2018.
Dosbarthwyd copi o'r cyfrifon i bawb â rhaglen cyfarfod heno. Aethpwyd trwyddynt ac, yn dilyn gofyn cwestiynau, penderfynwyd eu derbyn yn unfrydol. Arwyddodd y Cadeirydd hwy, ynghyd â'r ddogfennaeth ychwanegol a ofynnir amdani, fel y gellir eu hanfon at BDO, yr Archwilwyr Allanol, erbyn Gorffennaf 3ydd, sef y dyddiad archwilio.

8. **MATERION CYNLLUNIO**

Yn dilyn anfon llythyr at Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, i fynegi siomedigaeth na dderbyniwyd atebion i lythyrau/ymholiadau a anfonwyd – y cyntaf ar Fai 23ain, 2016, derbyniwyd ymateb fel a ganlyn oddi wrth Aneurun Môn Parri, Uwch Swyddog Gorfodaeth:

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
llythyrwyd â'r perchennog ar Fehefin 3ydd a Hydref 19eg a derbyniwyd ymateb e-bost ar Hydref 31ain, 2016 yn datgan bwriad o gyflwyno cais am dystysgrif cyfreithloni am y datblygiad ond, ni wnaed. Ysgrifennwyd eto yr wythnos diwethaf i'w hysbysu o'r bwriad i gyflwyno Rhybudd Gorfodaeth yn erbyn y datblygiad di-ganiatâd ar ddiwedd cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr oni chaeir y fynedfa yn wirfoddol cyn daw'r cyfnod hwnnw i ben.

b) **Gorfodaeth – 67 Cae Du, Aber-soch (Cwyn Rhif G17/0065)**
Ysgrifennwyd at y perchennog i ofyn am eglurhad am y gwaith a wnaed ar yr eiddo ond, ni dderbyniwyd ateb. Ailymwelwyd â'r eiddo yr wythnos diwethaf ond, ni lwyddwyd cael mynediad (er bod cerbydau yn y cwrtil). Credir o'r newidiadau allanol a welwyd, ni ddisgynna o fewn diffinad datblygiad ac ar y gwaethaf fe'i ystyrid yn un *de minimus*.

c) **Glenville, Aber-soch**
Caniatawyd y cais cynllunio yn dilyn ystyriaeth o bolisïau CH4 a CH10 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac nid ar sail unrhyw bolisi cyfnewid. Caniatâ'r polisïau yma adeiladu tai annedd newydd ar dir sydd heb ei glustnodi o fewn ffiniau canolfannau lleol a phentrefi, yn amodol y cydymffurfiant â'r meini prawf perthnasol. Ble clustnodwyd tir ar gyfer datblygiad anheddol, yna ystyrir unrhyw gais yn erbyn Polisi CH1 y Cynllun Datblygu. Mae gan y Cyngor bolisi cyfnewid (Polisi CH13 o'r Cynllun Datblygu Unedol). Delia â chynigion i ddymchwel tŷ neu dai sydd mewn cyflwr gwael o fewn pentrefi gwledig neu yng nghefn gwlad, ble nad oes ffin ddatblygu ffurfiol. Mynegwyd nad atebai hyn y cwestiwn o sut ganiatawyd dau dŷ yn lle un.

ch) **Cwt Glan y Môr Rhif 2, Aber-soch**
Agorwyd ffeil gorfodaeth ar y mater yma ar Chwefror 6ed yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd. Cyflwynwyd cais am ganiatad cynllunio ôl-weithredol i'r Cyngor ar Fawrth 22ain ac fe'i caniatawyd ar Fai 18fed. Nid yw parhau â gwaith adeiladu ynddo ei hun yn drosedd, ond ni fyddai'r Cyngor yn annog unrhyw un wneud hynny oni bai ei fod wedi derbyn caniatad cynllunio ymlaen llaw gan fod wastad bosibilrwydd o weithrediad gorfodaeth. Yn yr achos hwn, roedd y Cyngor o'r farn y

gellid rheoli'r datblygiad yn dderbyniol drwy ofyn am gais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol.

d) **Enwi Cyn-safle Gwesty'r Harbwr, Aber-soch**
Ymgynghorwyd â'r Gwasaneth Rheolaeth Adeiladu a chadarnhawyd yr adnabyddir lleiniau'r datblygiad fel a ganlyn: 1 – 4 Lôn Engan, LL53 7HX; 5 – 13 fel 1 – 9 Hafan yr Harbwr, LL53 7HZ a'r gweddill yn 10, 11 a 12 Hafan yr Harbwr, LL53 7HZ.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**
i) ***Eiddew Lôn Sarn Bach –*** derbyniwyd neges yn hysbysu fe'i torrwyd.
ii) ***Safleoedd Parcio ger Y Fach –*** gweler b) isod.
iii) ***Safle Picnic Machroes***
Er cysylltu â'r Adran Hawliau Tramwy parthed yr uchod ar ôl derbyn cŵyn fod gwir angen torri'r gwellt, deallwyd mai Uned Waith y Cyngor sy'n torri ar ran yr Adran Fwrdeistrefol – fe'i torrwyd erbyn hyn.

b) **Rhaglen Waith mis Mehefin**
- Clytwaith cyn arwisgo – Sarn Bach i Gilan; Sarn Bach – Cim – Bwlchtocyn; Pant Gwyn, Sarn Bach.
- Gwaith cyflwyno baeau parcio ar ymyl y ffordd – A497 Y Fach, Abersoch.

c) **Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor)**
Copïau, er gwybodaeth, o'r Rhybuddion Cyhoeddus – Lôn Rhoslyn a Stryd Fawr, Aber-soch; Machroes – Below i Y Tŷ Pren.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Cynhaliwyd cyfarfod â'r dau a ddangosodd ddiddordeb yn y gwaith o dorri'r llwybrau yr wythnos diwethaf. Adroddwyd y bodlonant gydweithio â chymorth y contractwr arferol am eleni. Hysbyseba'r Cyngor dendr at 2018 cyn diwedd y flwyddyn/yn fuan yn y flwyddyn newydd; penderfynwyd derbyn yr argymhellion fel y gellir dechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod heno. Noda Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, mewn e-bost y dylid torri'r llwybrau cyn i'r ysgolion gau am yr haf ond, os gwneir hwy ddwywaith, mae dechrau Mehefin a thua diwedd Awst/dechrau Medi'n well.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref***
Model a luniwyd gan ULlC i gynorthwyo cynghorau cymuned a thref yn dilyn penderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion yn erbyn Aelodau yn ôl i'r cynghorau i'w datrys yn lleol; penderfynwyd ei fabwysiadu.

ii) ***Digwyddiad ar y Cyd rhwng ULlC a Chymdeithas y Clercod (SLCC)***
Nodyn atgoffa am yr uchod a gynhelir yng Ngwesty St. Davids, Ewlo ar Orffennaf 12fed.

iii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Ymddiheuriwyd na fyddai neb yn bresennol yn yr uchod a gynhelir yng Nghaernarfon heno.

iv) ***Planwch Goeden Etifeddiaeth y Siarter Goed***
Nodyn atgoffa am yr uchod a gynhelir ar Dachwedd 6ed, 2017.

v) ***Bwletin Newyddion mis Mai***
Copi, er gwybodaeth. Argraffwyd dwy eitem ohono, sef llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn sôn am y 'Côd Ymddygiad – Datrys yn Lleol' (gweler i) uchod) ac erthygl 'Paratoi ar gyfer Archwiliadau Ariannol 2017 – 2021', gan nodi ar beth y canolbwyntir am y pedair blynedd nesaf. "Effeithiolrwydd Gwaith Archwilio Mewnol a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn" gaiff sylw eleni, ond rhoddir y prif sylw i effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol.

b) **Cyng. Dewi Wyn Roberts – Meddygfa Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth a anfonodd parthed yr uchod yn dilyn derbyn y cais cynllunio.

c) **Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad – Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn**
Llythyr yn egluro yr adolygir aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn dilyn yr etholiadau lleol a chan fod y Cyngor hwn yn rhan o AHNE Llŷn mae sedd i aelod arno – neb yn dymuno ei gynrychioli.

ch) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Y Pwyllgor Safonau – Aelod Pwyllgor Cymunedol**
Llythyr arall yn gofyn am enwebiadau ar yr uchod – neb â diddordeb.

d) **AON – Yswiriant**
Llythyr yn cynnig pris am yswiriant – ymddengys y deil yr hen ddyddiad adnewyddu (mis Mai) ar eu bâs-data.

dd) **Ffocws ar Chwarae – Cynghorau Tref a Chymuned**
Copi, er gwybodaeth, o bapurau briffio sy'n darparu gwybodaeth ar sut i gefnogi cyfleoedd gwell i blant chwarae yn eu cymunedau eu hunain.

e) **Delwedd – Neges Bersonol gan Aled a Ceri Roberts**
E-bost yn hysbysu y bu farw eu tad, Michael Roberts, sef sylfaenydd y cwmni; ymddiehurant am yr oedi cyn diweddaru gwefannau oherwydd ei salwch a'u profedigaeth – anfonwyd cydymdeimlad ar ran y Cyngor.

f) **Wyn Williams/Arwel Ellis Jones – Adolygiad o Ffiniaeth Etholaethol Gwynedd/Pen Llŷn**
Copi, er gwybodaeth, oddi wrth WW o ddogfen am yr uchod a drafodid ym Mhwyllgor Archwilio'r Cyngor yr wythnos diwethaf ac e-bost oddi wrth AEJ yn egluro y cynhaliodd y Comisiwn Ffiniau adolygiad o ffiniau etholaethol Gwynedd. O ganlyniad, i'r gwaith a gwblhawyd yn fewnol, ymddengys y colla Pen Llŷn o leiaf ddau aelod a gwela'r cynghorwyr lleol yr angen i becynnu'r wardiau cymunedol mewn ffordd wahanol er mwyn ceisio osgoi colli mwy na hynny. Awgryma drafod â'n Aelod Lleol i weld pa gynigion y gellir eu cynnig a, hefyd, sut mae modd cael barn

y Cyngor Cymuned ar y mater. Eglurodd DWR y sefyllfa a'r trafodaethau. Cynigir tri opsiwn a ffafria ein dau Aelod Lleol a WW (Cyn-aelod Aber-soch) yr ail un, sef "Awgrymir dilyn ffin naturiol o fewn y gymuned, sef Croesffordd Coed y Fron, ag un etholaeth ar gyfer cymuned Llanbedrog yn ymestyn o Benrhos i groesffordd Coed y Fron, sy'n cynnwys Llanbedrog (768) a Mynytho hyd at Goed y Fron (tua 450) – etholaeth un aelod â thuan 1218 o etholwyr. Byddai'r etholaeth arall ar gyfer cymuned Llanengan o groesffordd Coed y Fron a fyddai'n cynnwys y gweddill o Langian (tua 53 o etholwyr tu hwnt i Fynytho), Llanengan (333) ac Aber-soch (523) a Ward Botwnnog ei hun (246) yn cynnig etholaeth un aelod â thua 1155 o etholwyr." Edrychir ar yr ymatebion a anfonwyd at y Comisiwn Ffiniau eisoes.

ff) **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus**
Copi, er gwybodaeth, o'r ymgynghoriad – angen sylwadau erbyn Gorffennaf 31ain.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C17/0146/39/LL Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – Ynysfor Bach, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – **Gwrthodwyd**

C17/0272/39/LL Cais ôl-weithredol i ddymchwel cwt glan môr gwreiddiol ac adeiladu un newydd â man storio oddi tano – Cwt Glan Môr Rhif 2, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C17/0369/39/LL Newidiadau allanol yn cynnwys balconi – Bwthyn y Môr, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau**

YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS A CHEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL – Dim

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mehefin (Rh/S 002071) a chostau gweinyddol (Ebrill 2016 – Mehefin 2017) (Rh/S 002072) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002065 – Talu Wrth Ennill)
b) Cyngor Gwynedd – £10,000.00 (Rh/S 002066 – Cyfraniad at Doiledau'r Gymuned)
c) TBN Arboreral – £180.00 (Rh/S 002067 – Asesu Difrod Coed yr Allt a'i Adroddiad)
ch) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002068 – Talu Wrth Ennill)
d) Clorian Cymru – £672.00 (Rh/S 002069 – Camera Adnabod Rhifau Ceir)
dd) Wicksteed Leisure Ltd. – £108.00 (Rh/S 002070 – Arolwg Iechyd a Diogelwch y Caeau Chwarae)

Derbyniadau
a) Toiledau – £369.85 (Tâl Mynediad – £29.40, £26.10, £86.95, £71.10, £37.85, £53.15 a £65.30)
b) Cyllid a Thollau – £3450.51 (Ad-daliad TAW 2016 – 2017)
c) Ifan Hughes, Ymgymerwr – £270.00 (Tâl Claddu)
Wrth ofyn am ganiatâd claddu, gofynnwyd a oedd rhaid gofyn i dorrwr beddi swyddogol y Cyngor wneud y gwaith – atebwyd oes. Yn anffodus, ni wnaed ac, o ganlyniad, penderfynwyd ysgrifennu at yr ymgymerwr i'w hysbysu os na chydymffurfiai â Rheolau'r Fynwent na chaniateid iddo gladdu ynddi eto.

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**
Nos Fercher, Gorffennaf 19eg, 2017 am saith o'r gloch